**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17 Mawrth 2008**

**ALLDRO AMCANOL 2007-2008**

**Adroddiad gan Ken Finch,**
**Trysorydd i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

**1.** Rhoi amcangyfrif o ganlyniad dros dro ar gyfer y flwyddyn ariannol 2007-2008.

## Cyflwyniad

**2.** Mae gwariant yn erbyn y gyllideb yn cael ei fonitro'n ofalus gan staff y Gwasanaeth Tân ac Achub, ac mae unrhyw amrywiant neu amrywiannau a ddisgwylir yn cael eu hamlygu fel maent yn digwydd, fel y gellir gweithredu camau i sicrhau nad oes unrhyw risg ariannol i'r Awdurdod. Ar hyn o bryd mae'n ymddangos y bydd £23,121 o danwariant. Mae'r dadansoddiad manwl yn Atodiad A. Dangosir tanwariant fel ffigyrau negyddol.

## Amrywiannau i'r Gyllideb

**3.** Cyflogau yw cyfran fwyaf gwariant y Gwasanaeth Tân ac Achub ac mae'n ymddangos y bydd gorwariant net ar gyflogau, eleni.

- Y prif reswm dros y gorwariant yw am fod costau staff yr ystafell reoli yn uwch na'r hyn a nodwyd yn y gyllideb, gan fod nifer ohonynt wedi cael eu secondio i brosiectau arbennig,. Bydd hyn yn cael ei ddatrys fel y daw pob prosiect i ben.

**Amrywiannau i'r Gyllideb** *(parhad)*

- Amcangyfrifir bod costau pensiwn y Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân yn uwch na'r hyn a nodwyd yn y gyllideb, oherwydd bod y cynigion gwreiddiol ar gyfer y cynllun yn wahanol i'r cynllun ei hun.

- Y rheswm pennaf dros y tanwariant ar staff rhan amser mewn iwnifform yw bod diffoddwyr tân rhan amser yn mynd i lai o alwadau brys. Ailgyfeiriwyd rhywfaint o'r tanwariant hwn i oriau ychwanegol ar gyfer staff y system ddyletswydd rhan amser i wneud gwaith diogelwch cymunedol.

- Mae'r pennawd 'Amrywiol' yn cynnwys taliad 'effeithiolrwydd' i aelod o staff yn ymddeol yn gynnar. Bydd hyn yn creu arbedion yn y dyfodol.

**4.**

- Mae'r gwariant ar drethi lleol yn uwch nag a ragwelwyd. Roedd disgwyl y byddai'r Prisiwr Dosbarth yn gostwng rhai trethiadau, ond ni wireddwyd hynny. Gwrthbwysir hyn gan gostau refeniw yr Ystafell Rheoli Newydd a gafodd eu cynnwys yng nghyllideb 2007/2008, ond ni fydd eu hangen tan y flwyddyn ariannol nesaf.

- Mae'r arbedion ar gostau'r Ystafell Rheoli newydd, hefyd wedi eu gosod yn erbyn y cynnydd mewn cost cyfleustodau, trethi lleol a gwariant ychwanegol angenrheidiol ar gynnal a chadw, oherwydd problemau gwresogi mewn nifer o adeiladau.

**5.**

- Gorwariwyd ychydig ar y pennawd 'Cludiant', oherwydd y cynnydd mewn costau tanwydd ac amrywio amserau contractau prydlesu cerbydau. Gwrthbwysir y gorwariant hwn i raddau gan arbedion ar gostau, sef yswiriant cerbydau.

**Amrywiannau i'r Gyllideb** *(parhad)*

6 • Gyda 'Cyflenwadau a Gwasanaethau' rhagwelir y bydd gorwariant dan nifer o benawdau, yn rhannol oherwydd y cynnydd yng ngweithgarwch Diogelwch Tân. Mae'r cynnydd yn nifer y staff Diogelwch Tân wedi arwain at gynnydd mewn gwariant dan rai o benawdau'r gyllideb o ganlyniad i hynny, er enghraifft, offer swyddfa, argraffu a deunyddiau ysgrifennu.

• Er mwyn ychwanegu at y sgiliau mewnol, defnyddiwyd ymgynghorwyr a gweithwyr proffesiynol allanol i gyflawni nifer o brosiectau. Mae hyn yn cynnwys cydweithio'n llwyddiannus â Thîm Caffael Heddlu Gogledd Cymru i werthuso tendrau ar gyfer offer anadlu a meddalwedd rheoli. Arweiniodd hyn at ragor o wariant nag a ragwelwyd ar ffioedd Ymgynghorwyr a Gweithwyr Proffesiynol.

7. • Amcangyfrifir bod costau Ariannu Cyfalaf yn is na'r hyn a nodwyd yn y gyllideb, oherwydd llithriad yn y rhaglen gyfalaf yn 2006/2007.

8. Yn gyffredinol, mae'r alldro a amcangyfrifir ar gyfer incwm yn uwch nag oedd wedi ei ddisgwyl, yn bennaf oherwydd ad-dalu costau staff gan y Cynulliad a Brigadau eraill. Disgwylir i'r incwm buddsoddi fod yn is nag a gyllidwyd oherwydd gostyngiad yn lefel y darpariaethau y mae'r Awdurdod yn eu dal.

**ARGYMHELLIAD**

9. Ar hyn o bryd amcangyfrifir y tanwariant yn £23,121. Argymhellir nodi'r tanwariant rhagamcanedig hwn, ac ystyried ei wario i ariannu rhagor o waith Diogelwch Tân Cymunedol.